Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Nodwedd newydd ar wefan gyllido WCVA

Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r cyllid i'ch helpu chi i redeg eich mudiad trydydd sector. Yn ei gynhadledd ddiweddar ar y dirwasgiad, lansiodd WCVA Borth Cyllid Trydydd Sector Cymru - sef un man i gael pob math o gyfleoedd a chyngor am gyllid.

Mae'r adnodd newydd hwn yn darparu ystod eang o adnoddau gwybodaeth a chyngor am gyllid i helpu mudiadau i wynebu'r her cyllido a gwella eu siawns o lwyddo. Mae modd cael gafael ar y porth cyllido drwy ymweld â gwefan Cyllid Cynaliadwy Cymru WCVA - www.sustainablefundingcymru.org.uk.

Mae'r porth cyllido yn rhoi mynediad at gronfa ddata y gellir chwilio drwyddi sy'n llawn cyfleoedd cyllido, cyngor a chymorth ar gyfer codi arian, yn ogystal ag ambell i awgrym sut mae canfod gwahanol ffynonellau cyllid. Mae'r porth cyllido yn adnodd newydd sbon ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Nghymru, ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Un o'r nodweddion yw'r cyfleuster 'chwilio am gyllid', sy'n ei gwneud hi'n haws i grwpiau gael gwybod am gyllidwyr o Ewrop, am y llywodraeth, am y loteri, am ymddiriedolaethau elusennol ac am noddwyr corfforaethol. Mae'r adran 'newydd i gyllid' wedi'i hanelu at grwpiau gydag ychydig iawn o brofiad o godi arian, neu ddim profiad o gwbl, ac mae'n llawn gwybodaeth, o gychwyn ar godi arian i bennu cyllidebau ar gyfer grwpiau bach. Ceir manylion y gwahanol opsiynau cyllido ac ariannu sydd ar gael i'r sector, gan gynnwys grantiau, rhoi arian, cael cyllid drwy fenthyciadau ac ennill incwm drwy gontractau a masnachu. Hefyd, mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael am gyfleoedd cyllido a thendro a ble i ddod o hyd i ragor o gymorth a chefnogaeth.

Mae'r porth cyllido wedi'i gynllunio a'i ddatblygu gan dîm Cyllid Cynaliadwy Cymru WCVA. Ariennir prosiect Cyllid Cynaliadwy Cymru gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, ac mae wedi chwarae rhan flaenllaw i alluogi'r trydydd sector yng Nghymru i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ers bron i dair blynedd. Mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn arfogi'r sector a^ sgiliau a gwybodaeth i gael cyllid o gymysgedd amrywiol o ffynonellau ac i weithio tuag at gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

'Bydd y porth cyllido yn sicrhau y bydd mudiadau trydydd sector yng Nghymru yn cael gafael ar yr wybodaeth fwyaf diweddar, perthnasol a chynhwysfawr bosibl am gyfleoedd a chyngor am gyllid' meddai Sara Carroll, Swyddog Cyngor am Gyllid. 'Y nod yw helpu mudiadau trydydd sector i godi arian yn fwy effeithiol a'u helpu i weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy yn ariannol.

I gael gafael ar y porth cyllido, ewch i www.sustainablefundingcymru.org.uk.

Cynllun gwarant yn estyn ei fenthyg i fentrau cymdeithasol mewn ardaloedd difreintiedig

Fis diwethaf, cyhoeddodd y Llywodraeth newidiadau i gynllun Gwarant Cyllid Menter (GCM), i helpu i wella amodau benthyg i fusnesau a mentrau cymdeithasol â throsiant blynyddol hyd at £25 miliwn mewn ardaloedd difreintiedig.

Bydd y newidiadau'n rhoi cymorth ychwanegol i sefydliadau cyllid datblygu cymunedol (SCDCau) drwy eu caniata^u i gael benthyciadau banc sy'n werth hyd at £20m. Mewn ymateb, cyhoeddodd Unity Trust Bank hefyd ei fod yn gwneud £5m ychwanegol ar gael ar gyfer benthyca ymlaen gan SCDCau.

Mae Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol yn rhoi cymorth ariannol hanfodol i fusnesau a mentrau cymdeithasol na allant gael benthyciadau banc oherwydd y risg uwch sy'n gysylltiedig a^ chefnogi'r grwpiau a'r cymunedau difreintiedig y maent yn benthyg iddynt.

I helpu mentrau cymdeithasol i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad newydd a fydd ar gael, gwnaeth Swyddfa'r Cabinet, mewn partneriaeth â'r Gwaddolion Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA), gyhoeddi Rhaglen Cael at Fuddsoddiad a fydd yn para blwyddyn. Nod y rhaglen hon fydd dod o hyd i ffyrdd i fentrau cymdeithasol gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gael mathau newydd o gyllid twf.

Dywedodd Cyfarwyddwr Menter WCVA Phil Fiander: 'Rydym yn wynebu amodau economaidd heriol felly mae'n allweddol parhau cyllid i'r trydydd sector. Byddem yn annog pob sefydliad trydydd sector i ymchwilio i'w gymhwyster am gymorth o dan y Cynllun Gwarant Cyllid Menter. Yn rhan o ddatblygu Cronfa Buddsoddi Cymunedol WCVA, rydym yn archwilio a all y gronfa gynnig cymorth Gwarant Cyllid Menter yn y dyfodol.'

Am ragor o wybodaeth am sut i gael at y cynlluniau hyn ewch i www.berr.gov.uk/whatwedo/enterprise/enterprisesmes/info-business-owners/access-to-finance/sflg/page37607.html.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH (029 2043 1700 (029 2043 1701
www.wcva.org.uk (0800 2888 329

Cynadleddau am ddim yn cynnig cyfle i ddysgu am ymgysylltu â'r Cynulliad

Bydd dwy gynhadledd ym mis Gorffennaf yn edrych ar sut mae cymdeithas sifil wedi bod yn ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ers iddo gael mwy o bwerau yn 2007, ac yn cynnig cyfle i ddysgu sut mae dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r digwyddiadau, lle ceir mynediad am ddim, yn cael eu trefnu gan Gymru Yfory, a byddant yn digwydd ddydd Llun 13 Gorffennaf yn Llandudno a dydd Iau 16 Gorffennaf yng Nghaerdydd.

Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Cymru Yfory lyfryn o'r enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ei newydd wedd – canllaw. Mae'r canllaw wedi bod yn adnodd hynod ddefnyddiol i nifer o fudiadau ar gyfer deall y pwerau sydd gan y Cynulliad erbyn hyn, a sut mae cyfrannu at ddylanwadu arno. Ddwy flynedd ar ôl i'r trefniadau datganoli presennol ddod i rym, mae Cymru Yfory yn bwriadu diweddaru'r canllaw, a bydd y cynadleddau yn rhan o'r gwaith hwn.

Bydd y ddwy gynhadledd Adeiladu ar brofiad ddwy flynedd yn ddiweddarach yn rhoi cyfle dysgu gwerthfawr i'r rheini sy'n awyddus i ddysgu mwy am sut mae'r Cynulliad yn gweithio a sut mae pwerau a gweithdrefnau'r Cynulliad wedi datblygu dros y ddwy flynedd diwethaf.

Bydd prosiect Lleisiau dros Newid Cymru WCVA yn ymddangos fel rhan o'r cynadleddau, a bydd yn cyflwyno'r broses o ymgysylltu a^ llunwyr penderfyniadau o safbwynt y sector gwirfoddol, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd, rhwystrau rhag ymgysylltu a rôl y sector mewn Cymru ddatganoledig. I gael rhagor o wybodaeth neu i gadw'ch lle yn y gynhadledd, ewch i www.cymru-yfory.org/conference_cym neu ffoniwch Cymru Yfory ar 029 2043 1271 / e-bost cymruyfory@stratamatrix.co.uk

Croeso helaeth i gynnig Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli 2011

Ymis hwn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu'r cynnig swyddogol am benderfyniad ar Flwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli (BEG) 2011, a fydd yn rhoi gwell cydnabyddiaeth i'r cyfraniad a wna mwy na 100 miliwn o wirfoddolwyr yn Ewrop.

Y camau nesaf fydd galw ar Gyngor yr Undeb Ewropeaidd a Senedd Ewrop i fabwysiadu'r penderfyniad a sicrhau cyllideb briodol ar gyfer y Flwyddyn.

Mae amcanion y flwyddyn wedi'u hystyried yn ofalus a byddant yn adlewyrchu'r uchelgais ar gyfer dyfodol gwirfoddoli yn Ewrop: gwobrwyo a chydnabod gweithgareddau gwirfoddol; grymuso mudiadau gwirfoddol; a hybu ymwybyddiaeth am werth gwirfoddoli yn ein cymdeithasau.

Mae Cynghrair Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli 2011, sy'n cynnwys ystod eang o sefydliadau'n gweithio ar faterion gwirfoddol yn Ewrop, wedi codi pryderon am gyllideb arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd: `Rydym yn poeni bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig cyllideb o ddim ond 8 miliwn EUR ar gyfer gweithgareddau paratoi a gweithredu'r flwyddyn.

`Yn seiliedig ar brofiad blynyddoedd Ewropeaidd eraill, efallai na fydd y swm hwn yn ddigon i gyflawni'r amcanion uchelgeisiol y sonnir amdanynt uchod, yn arbennig oherwydd bod angen i'r flwyddyn gyrraedd y lefel leol fel bo gweithgareddau gwirfoddol yn digwydd i fod yn llwyddiant. Rydym felly'n erfyn ar Senedd Ewrop a Chyngor yr UE i gynyddu'r gyllideb yn ddigonol er mwyn bodloni'r disgwyliadau a godwyd gan y Flwyddyn.'

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwirfoddoli a Pholisi WCVA, Timothy Day, fod angen ymdrech gyffredin gan sefydliadau'r UE, llywodraethau cenedlaethol, awdurdodau lleol, mudiadau'r trydydd sector, y sector preifat a'r cyfryngau, er mwyn i BEG 2011 gael effaith lwyddiannus.

Ychwanegodd: `Bydd Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli yn cydnabod cyfraniad pobl Cymru at effaith anferth gwirfoddoli yn Ewrop ac ymhellach. Gobeithiaf y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn clustnodi adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod y flwyddyn yn cael effaith bositif iawn.'

Yn rhan o'r camau paratoi, bydd y rhwydweithiau Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r Gynghrair yn lansio gwefan bwrpasol ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli 2011 (www.eyv2011.eu) a fydd y ffynhonnell wybodaeth ac yn fan cyfeirio ar gyfer y flwyddyn.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH 029 2043 1700 029 2043 1701
www.wcva.org.uk 0800 2888 329

Buddsoddi i arbed - ar agor i fudiadau trydydd sector

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi ffrwd gyllido newydd gwerth £60m, Buddsoddi i arbed, sydd â'r nod o `gefnogi prosiectau gwella'r trydydd sector a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol sy'n rhyddhau arian, gan sicrhau gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.'

Bydd yn rhaid ad-dalu buddsoddiadau o'r Gronfa yn llawn, ond ni fydd dim llog yn daladwy a bydd modd bod yn hyblyg ynglŷn â'r cyfnod ad-dalu. Byddant fel arfer yn mynd tuag at dalu costau refeniw sy'n gysylltiedig a rhoi prosiectau ar waith. Ni fwriedir i'r Gronfa gymryd lle ffrydiau cyllido sydd eisoes yn bodoli.

Croesewir ceisiadau gan amryw o fudiadau gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â mudiadau gwirfoddol sy'n cael cyllid tair blynedd gan Lywodraeth y Cynulliad, neu grwpiau ymbarél sy'n cynrychioli unrhyw rai o'r rhain. Caiff partneriaethau hefyd gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol a chyrff eraill.

I gael rhagor o fanylion:
http://wales.gov.uk/topics/improvingpublicservices

Mudiadau Cymru am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2009, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru*.

Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol.

Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Dyma'r categorïau:

- **Gwobr Class ar gyfer y cyfathrebu gorau**
- **Y Wobr Werdd**
- **Y mudiad a edmygir fwyaf**

Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA ym mis Rhagfyr.

Roedd enillwyr y llynedd yn cynnwys Cartrefi Cymru , Cymdeithas Ponthafren, a Fairbridge De Cymru sy'n gweithio gyda phobl ifanc anodd eu cyrraedd .

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 18 Medi 2009. I dderbyn ffurflen enwebu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ewch i www.wcva.org.uk.

Mae'r dirwasgiad yn gafael, felly beth yw'r effaith ar wirfoddoli?

Mewn amserau caled mae yna gofynion gwahanol ar bobl. I rai, mae diswyddiad yn rhoi'r cyfle i wneud ychydig o waith gwirfoddol mae nhw wedi eisiau gwneud ond heb cael yr amser. I eraill, mae gwirfoddoli yn ffordd i fagu hunan-hyder a sgiliau er mwyn ail-ymuno gyda'r marchnad swyddi. Mae rhai gwirfoddolwyr yn ffeindio bod angen iddynt gwneud llai, fel bod nhw'n gallu cymryd swydd rhan amser er mwyn cael deupen llinyn ynghyd.

Gall gwirfoddoli mewn cymunedau sydd wedi cael profiad o golli swyddi ar raddfa mawr cynyddu neu gostwng. Mae mudiadau sydd yn cwrdd ag anghenion pobl yn ffeindio yn aml bod galw yn gynyddu pan mae'r dirwasgiad yn gafael.

Yn y cyd-destun yma, mae WCVA yn wneud arolwg o fudiadau sydd yn gynnwys gwirfoddolwyr, er mwyn ffeindio allan faint o wirfoddolwyr sydd i gael, a beth mae nhw'n wneud. Mae'r arolwg hefyd yn ofyn y mudiadau yma sut wnaethon nhw dod i gynnwys gwirfoddolwyr ac i gael nhw i ddweud i WCVA amdano eu profiad gwirfoddoli.

Bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio er mwyn darparu gwybodaeth i WCVA, canolfannau gwirfoddoli a mudiadau sydd yn gynnwys gwirfoddolwyr i wella adnabyddiaeth o wirfoddoli yng Nghymru, ac i galluogi gwirfoddolwyr a'u fudiadau a gwasanaethau i fod yn fwy effeithlon wrth gwneud Cymru yn well lle i fyw.

Mae'r arolwg yn cael ei anfon i sampl o fudiadau rydyn ni'n gwybod sydd yn gynnwys gwirfoddolwyr.

Os oes ganddoch chi diddordeb mewn cymryd rhan, gallwch ffeindio gwybodaeth pellach ar wefan WCVA www.wcva.org.uk/ymchwil, o Lein Gymorth WCVA (0800 2888 329) neu trwy ebostio research@wcva.org.uk

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Dim toriadau dinistriol i gyllid

Mae'r Prif Weinidog, Rhodri Morgan, a Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi addo nad yw 'polisi dinistriol' o dorri cyllid anstatudol ac allanol yn ffordd ddichonadwy o symud ymlaen.

Roedd y naill arweinydd a'r llall yn siarad ar y diwrnod cyn dathliadau 10 mlynedd datganoli, ac yng nghynhadledd WCVA ar y dirwasgiad, a bu'r ddau ohonynt yn dadlau o blaid 'ail-lunio'r wladwriaeth' ac yn dweud bod angen edrych o'r newydd ar sut caiff gwasanaethau'r rheng flaen eu darparu.

Cadarnhaodd Rhodri Morgan hefyd ei ymrwymiad i'r agenda Creu'r Cysylltiadau: 'Drwy gydol fy nghyfnod yn Brif Weinidog, rwyf wedi dadlau o blaid diwylliant gwasanaeth cyhoeddus i gymryd lle'r diwylliant sector cyhoeddus yng Nghymru, yn seiliedig ar berthynas â llawer o ymddiriedaeth, nid diffyg ymddiriedaeth, rhwng defnyddwyr a darparwyr. Mae hyn i gyd yn rhan o'r thema rwyf wedi ceisio'i datblygu heno, sef defnyddio datganoli fel ffordd o agor drws y Llywodraeth yng Nghymru led y pen ac fel sbardun i greu cyfnod newydd o gyfranogi o ran y ffordd y bydd Cymru'n gwneud pethau'.

Ond galwodd hefyd ar ddarparwyr, ar awdurdodau lleol, ar y Byrddau Iechyd newydd, ac ar y trydydd sector 'i ganolbwyntio'n ddi-baid, a chyda dychymyg newydd, nid ar ffyrdd newydd o ddadlau am arian ychwanegol – sef arian nad yw'n bodoli, waeth pa mor gywrain yw'r ddadl – ond ar ddefnyddio'r arian sydd ganddynt eisoes yn fwy effeithiol.'

Ategodd Steve Thomas y sylwadau hyn, ac anogodd bawb i ddefnyddio'r 'rhyfel ffug' hwn dros y 18 mis nesaf (nes i doriadau difrifol mewn gwariant cyhoeddus ddod i rym) i gynllunio ar gyfer dyfodol gwahanol iawn ac i flaenoriaethu gwasanaethau allweddol y rheng flaen. Roedd yn meddwl y ceid cynnydd mewn agweddau allweddol ar gomisiynu gwasanaethau trydydd sector (llywodraeth leol), cytunodd i anrhydeddu Compactau a threfniadau cyswllt lleol, a chefnogodd yr egwyddorion cyllido a nodwyd yng Nghod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y trydydd sector.

Fodd bynnag, ni ddywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr. Brian Gibbons, p'un ai fyddai'n defnyddio'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb ar gyfer y Gronfa Galedig ai peidio (fel a geir yn Lloegr). Pwysleisiodd eto ei ymrwymiad i'r Cod Ariannu, i gyfathrebu cynnar ac i nifer o'r cynigion a wnaethpwyd yng nghynllun gweithredu WCVA.

Cafwyd rhywfaint o newyddion cadarnhaol yn y gynhadledd ar y dirwasgiad hefyd. Roedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi darparu mwy o gyllid i wasanaethau cynghori mewn ardaloedd tlawd, cyhoeddodd y Gronfa Loteri Fawr y byddai'n darparu cyllid ychwanegol i fudiadau trydydd sector sydd wedi dioddef yn sgil y dirwasgiad, a chyhoeddwyd y byddai rhaglenni blaengar Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef ProAct a ReAct, yn awr ar agor i fudiadau trydydd sector.

Dywedodd Prif Weithredwr WCVA, Graham Benfield OBE, a oedd hefyd yn siarad yn y gynhadledd, fod 'llawer o fudiadau yn dechrau mynd yn brin o arian. Mae cymynroddion, rhoddion o nwyddau, difidendau ac incwm o bob math yn mynd yn brin, tra mae'r galw am wasanaethau yn cynyddu. Mae 7 y cant o'r mudiadau yn arolwg WCVA eisoes wedi cyhoeddi eu bod yn dileu swyddi, a bydd 40 y cant efallai'n gwneud hynny, neu'n bendant yn gwneud hynny, dros y chwe mis nesaf.

'Mewn achosion o ddirwasgiad yn y gorffennol, mae llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog wedi tueddu i ddewis yr opsiynau hawdd, sef gwneud y toriadau cyntaf a'r dyfnaf mewn grantiau i'r trydydd sector. Rwy'n falch bod llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn awyddus i osgoi polisïau dinistriol y tro hwn, ond ni fydd bwriadau da, ar eu pen eu hunain, yn ddigon. Nid yw aros i weld yn ddewis cyfrifol, a bydd cyfathrebu'n gynnar, ac yna cynllunio cyfres gadarn o gamau gweithredu sydd wedi'u diogelu at y dyfodol, yn ffordd o ganfod p'un ai siarad gwag oedd geiriau gwresog y ddegawd ddiwethaf - fel a welwyd mewn Codau Ymarfer, Cynlluniau a Chompactau - ynteu a fyddant yn arwain at ffordd adeiladol ymlaen, gan osgoi'r camgymeriadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, sef y toriadau mympwyol a achosodd cymaint o ddifrod i ymddiriedaeth a pherthynas dros y blynyddoedd diwethaf.'

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Gorffennaf, Medi a Tachwedd 2009 a Ionawr 2010.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.